**Sylwadau ynglŷn â'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig arfaethedig**

Oherwydd ein bod yn cynnig cymaint o newidiadau i strwythur a chynnwys y safonau presennol, gallai fod yn anodd deall newidiadau wedi'u marcio. Rydym wedi paratoi'r ddogfen hon er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ac amlinellu'r gwahaniaethau rhwng y safonau drafft ar gyfer ymgynghori a'r safonau presennol. Rydym yn nodi ym mhle yn y drafft ymgynghori y gellir canfod cynnwys y safonau presennol. Rydym hefyd yn darparu sylwadau cryno ynglŷn â'r prif newidiadau rydym wedi'u gwneud.

| **Safon bresennol** | **Safon arfaethedig ddrafft** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **Safonau lefel sefydliad** | | |
| **1. Lefel cymhwyster ar gyfer cael lle ar y Gofrestr** | | |
| 1.1 Disgwylia'r Cyngor fel arfer mai'r canlynol fydd trothwyon y llwybrau mynediad i'r gofrestr.<br><br>**Gradd Baglor gydag anrhydedd ar gyfer:**<br>• gwyddonwyr biofeddygol (gyda'r Dystysgrif Cymhwysedd a ddyfernir gan y Sefydliad Gwyddor Biofeddygol, neu gymhwyster cyfatebol);<br>• ciropodyddion / podiatryddion;<br>• deietegwyr;<br>• therapyddion galwedigaethol;<br>• ymarferwyr adrannau llawfeddygol;<br>• orthoptyddion;<br>• parafeddygon;<br>• ffisiotherapyddion;<br>• prosthetyddion / orthotyddion;<br>• radiograffwyr; a | *Rhaglen – Sefydlu'r rhaglen*<br><br>7.1 Mae lefel academaidd y rhaglen yn addas er mwyn cefnogi dysgwyr i gyflawni'r safonau hyfedredd a darparu ymarfer diogel ac effeithiol. | Mae SET 1 yn diffinio lefelau isaf y cymwysterau a ddisgwylir er mwyn cael lle ar Gofrestr yr HCPC ar draws y 15 proffesiwn sy'n cael eu rheoleiddio. O ystyried y modelau darparu cynyddol amrywiol a geir mewn addysg iechyd a gofal, mae'n bwysig bod y safon hon yn galluogi hyblygrwydd er mwyn caniatáu ar gyfer arloesi a gwahaniaethau a sicrhau diogelwch y cyhoedd ar yr un pryd.<br>Er mwyn cyflawni hynny, mae geiriad y safon wedi newid yn sylweddol. Mae'r safon newydd ddrafft (7.1) yn pwysleisio y dylai'r lefel academaidd gynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r safonau hyfedredd ac ymarfer yn ddiogel.<br>Mae hyn hefyd yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid fu'n galw am well eglurder a hyblygrwydd, yn enwedig ar gyfer llwybrau |

| | | |
|---|---|---|
| • therapyddion iaith a lleferydd.<br><br>**Gradd sylfaen ar gyfer cyflenwyr cymorthyddion clyw.**<br><br>**Gradd meistr ar gyfer:**<br>• therapyddion celf;<br>• gwyddonwyr clinigol (gyda'r Dystysgrif Cyrhaeddiad a ddyfernir gan Gymdeithas y Gwyddonwyr Clinigol, neu gymhwyster cyfatebol);<br>• seicolegwyr fforensig (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg fforensig, neu gymhwyster cyfatebol);<br>• seicolegwyr iechyd (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg iechyd, neu gymhwyster cyfatebol);<br>• seicolegwyr galwedigaethol (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg alwedigaethol, neu gymhwyster cyfatebol);<br>• seicolegwyr chwaraeon ac ymarfer corff (gyda dyfarniad cymhwyster Cymdeithas Seicolegol Prydain mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, neu gymhwyster cyfatebol);<br><br>**Doethuriaeth broffesiynol ar gyfer seicolegwyr clinigol.**<br><br>**Doethuriaeth broffesiynol, neu gymhwyster cyfatebol ar gyfer:** | | prentisiaethau a rhai nad ydynt yn draddodiadol.<br>Byddai'r safon ddrafft yn berthnasol i'r rhaglen addysg yn hytrach na'r sefydliad. Mae'n safon ar lefel rhaglen felly. Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau diweddar yn yr ymagwedd tuag at asesu'r safon hon.<br>Bydd y rhestr gyfredol o gymwysterau yn cael ei chadw yn rhan o'r canllawiau, er mwyn darparu eglurder i ddarparwyr addysg a chefnogi prosesau asesu/cymeradwyo rhaglenni. |

| | | |
|---|---|---|
| • seicolegwyr cwnsela; a<br>• seicolegwyr addysg | | |
| **2. Derbyn i raglen** | | |
| 2.1 Rhaid i'r broses derbyn roi'r wybodaeth i'r ymgeisydd ac i'r darparwr addysg y mae ei hagen arnynt er mwyn gwneud dewis ar sail gwybodaeth ynglŷn â derbyn neu gynnig lle ar raglen. | *Sefydliad - Derbyniadau*<br>4.1 Mae'r broses derbyn yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, ac yn galluogi'r ymgeisydd a'r darparwr addysg i wneud dewis gwybodus ynglŷn â derbyniadau i raglenni. | Mae'r safon ddrafft (4.1) yn cadw'r bwriad creiddiol o alluogi dewis gwybodus ac mae'n cryfhau disgwyliadau ynglŷn â thegwch, tryloywder a hygyrchedd. Mae hyn yn ymateb i adborth rhanddeiliaid ynglŷn â rhwystrau posib a wynebir gan ymgeiswyr o grwpiau a ymyleiddiwyd a llwybrau mynediad gwahanol, ac mae'n gyson ag ymrwymiad yr HCPC i degwch mewn derbyniadau. Mae'r geiriad diwygiedig hefyd yn adlewyrchu ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau, ac mae hynny'n gyson â'n hymagwedd tuag at reoleiddio. |
| 2.3 Rhaid i'r broses derbyn sicrhau bod gan ymgeiswyr feistrolaeth dda ar Saesneg.<br>2.4 Rhaid i'r broses derbyn asesu addasrwydd ymgeiswyr, gan gynnwys gwiriadau euogfarnau troseddol.<br>2.5 Rhaid i'r broses derbyn sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod am unrhyw ofynion iechyd ac yn cydymffurfio â nhw. | *Sefydliad - Derbyniadau*<br>4.4 Mae'r darparwr addysg yn gosod ac yn gweithredu gofynion derbyn teg, priodol ac effeithiol, sy'n cwmpasu iechyd, ymddygiad, cymeriad a hyfedredd yn yr iaith Saesneg, er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan mewn rhaglenni yn ddiogel a bodloni safonau proffesiynol. | Mae'r safonau hyn wedi'u crynhoi i safon drafft 4.4 er mwyn gwella eglurder a lleihau dyblygu. Mae'r geiriad newydd yn gosod disgwyliadau ar gyfer gofynion derbyn teg ac effeithiol sy'n cwmpasu iechyd, ymddygiad, cymeriad a hyfedredd yn yr iaith Saesneg. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu pryderon rhanddeiliaid ynglŷn â rhwystrau amhriodol i ymgeiswyr anabl neu i rai sydd â chefndiroedd ieithyddol gwahanol. Mae'n gydnaws hefyd ag egwyddorion addasrwydd i ymarfer yr HCPC ac mae'n sicrhau bod darparwyr yn deg wrth asesu gallu ymgeiswyr i gymryd rhan mewn rhaglenni yn ddiogel. |
| | *Sefydliad - Derbyniadau* | Mae safon ddrafft 4.3 yn cryfhau'r disgwyliadau ynglŷn â chydnabod dysgu |

| | | |
|---|---|---|
| 2.6 Rhaid bod proses addas ac effeithiol ar gyfer asesu dysgu a phrofiad blaenorol ymgeiswyr. | 4.3 Mae'r darparwr addysg yn asesu dysgu a phrofiad blaenorol ymgeiswyr er mwyn cefnogi penderfyniadau derbyn teg ar draws llwybrau mynediad amrywiol. | blaenorol, yn enwedig ar gyfer llwybrau mynediad nad ydynt yn rhai traddodiadol megis prentisiaethau a modelau dan arweiniad cyflogwyr. Mae hyn yn ymateb i adborth gan randdeiliaid a dynnodd sylw at anghysonderau yn y ffordd y mae darparwyr addysg yn asesu dysgu blaenorol. Mae'r geiriad newydd yn hyrwyddo tryloywder a thegwch. |
| 2.7 Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w cael mewn perthynas ag ymgeiswyr a'u bod yn cael eu gweithredu a'u monitro.<br><br>3.14 Rhaid i'r rhaglen weithredu a monitro polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â dysgwyr. | *Sefydliad – Rheoli*<br><br>2.2 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori mewn strategaethau a pholisïau ym mhob lleoliad, ac maent yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu mewn modd ystyrlon er mwyn cefnogi profiadau a deilliannau o ansawdd da i bob dysgwr ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni.<br><br>*Rhaglen – Sefydlu'r rhaglen*<br><br>7.2 Mae strategaethau a pholisïau i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol ar draws y rhaglen. | Mae safonau drafft 2.2 a 7.2 yn cyfuno'r safonau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) presennol ar lefel sefydliad (2.7 a 3.14).<br>Maent hefyd yn ehangu cwmpas y safonau gwreiddiol i osod disgwyliadau EDI ar draws pob lleoliad. Maent yn cryfhau'r disgwyliad y bydd EDI yn cael ei ymgorffori ar lefelau strategol a gweithredol, ac nid mewn polisïau ar wahân yn unig.<br>Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach HCPC i ymgorffori EDI ar draws addysg a hyfforddiant, fel y gwelwyd yn y diwygiadau diweddar i'r safonau hyfedredd a'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.<br>Mae'r newid yn ymateb hefyd i geisiadau gan randdeiliaid am strategaethau EDI mwy gweithredol ac adlewyrchol ym mhob lefel yn y sefydliad, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, monitro gwahaniaethau mewn cyflawniad a chefnogi anghenion amrywiol dysgwyr. |

| 3. Llywodraethiant, rheolaeth ac arweinyddiaeth rhaglenni | | |
|---|---|---|
| 3.1 Rhaid i'r rhaglen fod yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y diben. | *Sefydliad – Darparu Adnoddau*<br>1.1 Mae'r rhaglenni yn gynaliadwy'n ariannol o fewn y darparwr addysg ac yn addas ar gyfer y diben gyda chefnogaeth yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â nhw. | Mae safon ddrafft 1.1 yn egluro cysyniad cynaliadwyedd o safbwynt dichonoldeb ariannol a chefnogaeth rhanddeiliaid.<br>Mae hyn yn adlewyrchu adroddiadau ynglŷn â phwysau ariannol cynyddol ar sefydliadau. Rydym wedi gweld hyn mewn adroddiadau addysg ac ym mhob rhan o'n hadborth gan randdeiliaid yn ystod yr adolygiad.<br>Roedd adborth rhanddeiliaid yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod cefnogaeth strategol i raglen yn parhau a bod adnoddau'n cael eu cynllunio'n effeithiol.<br>Mae'r newid yn gydnaws hefyd â disgwyliadau ehangach yn y sector ynglŷn â gwytnwch sefydliadau a dichonoldeb rhaglenni, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu a modelau darparu sy'n esblygu. |
| 3.2 Rhaid i'r rhaglen gael ei rheoli'n effeithiol | *Sefydliad - Rheoli*<br>2.1 Mae'r rhaglen yn cael ei rheoli'n eglur ac yn effeithiol, gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer pob agwedd ar raglenni, gan gynnwys gyda phartneriaid strategol a gweithredol. | Mae'r safon ddiwygiedig (2.1) yn cyflwyno disgwyliadau mwy eglur ynglŷn a rheoli rhaglenni a chyfrifoldebau wedi'u diffinio, gan gynnwys gyda phartneriaid strategol a gweithredol.<br>Mae hyn yn ymateb i heriau a nodwyd mewn modelau darparu dan arweiniad cyflogwyr a rhai aml-safle, lle gall llywodraethiant ac atebolrwydd fod yn dameidiog.<br>Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi trosolwg mwy eglur dros bartneriaethau. Mae'n gydnaws hefyd â chynigion i gryfhau'r ffordd y bydd darparwyr addysg yn gwneud penderfyniadau ar y cyd â phartneriaid. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.3 Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb proffesiynol cyffredinol dros y rhaglen gymwysterau a phrofiad priodol ac, oni bai bod trefniadau eraill yn briodol, eu bod ar ran berthnasol y Gofrestr. | *Sefydliad - Rheoli*<br>2.4 Mae proses deg ac effeithiol ar waith ar gyfer penodi unigolion â chyfrifoldeb proffesiynol cyffredinol am raglenni, gan sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gallu cefnogi darpariaeth addysg a hyfforddiant yn ddiogel ac yn effeithiol. | Mae safon ddrafft 2.4 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldeb proffesiynol dros y rhaglen. Mae'r cyfeiriad at fod unigolion ar ran berthnasol y Gofrestr wedi'i ddileu er mwyn bod yn gyson â'r modd y caiff y safon ei gweithredu ar hyn o bryd yn unol â'r hyn a amlinellir yn y canllawiau presennol. Mae'r safon gyfredol yn caniatáu eithriadau i'r angen i'r unigolyn cyfrifol fod yn rhan o'r Gofrestr. Fodd bynnag, mae wedi ei geirio mewn modd cymhleth a negyddol.<br>Mae dileu'r rhan hon o'r geiriad yn cadw'r modd y caiff y safon ei gweithredu ar hyn o bryd ac yn symleiddio'r geiriad, gan symud i ffwrdd o fframio negyddol.<br>Mae'r safon ddrafft yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan yr unigolyn cyfrifol gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer y rôl. Byddai'r canllawiau diwygiedig yn darparu manylion pellach ynglŷn â sut y byddwn yn disgwyl i'r darparwr addysg ddangos bod y cymwysterau'n addas, gan gynnwys lle bo hynny'n briodol, bod yr unigolyn yn rhan o Gofrestr yr HCPC. Mae'r newid yn gydnaws ag egwyddorion EDI ehangach ac adborth rhanddeiliaid ynglŷn â hyblygrwydd wrth staffio.<br>Mae'r newid drafft hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd proses penodi deg ac effeithiol. Mae hynny'n mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â rhagfarnau a rhwystrau diangen, ond yn cadw'r disgwyliad bod gan unigolion gymwysterau addas i allu cefnogi darparu addysg a hyfforddiant yn ddiogel ac effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.4 Rhaid bod gan y rhaglen systemau monitro a gwerthuso rheolaidd ac effeithiol ar waith.<br><br>5.3 Rhaid i'r darparwr addysg gynnal system drylwyr ac effeithiol ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | *Sefydliad - Rheoli*<br><br>2.3 Mae'r darparwr addysg yn monitro, gwerthuso a gwella ansawdd, diogelwch a thegwch y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn rheolaidd ar draws pob lleoliad. | Mae safon ddrafft 2.3 yn cyfuno safonau presennol ynglŷn â systemau monitro a gwerthuso, gan gynnwys mewn dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer, ac mae'n cryfhau disgwyliadau drwy gyfeirio'n benodol at ansawdd, diogelwch a thegwch.<br>Mae hyn yn cefnogi cysondeb mewn ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu, yn benodol mewn lleoliadau sydd dan arweiniad cyflogwyr a lleoliadau allanol, ac mae'n adlewyrchu pryderon rhanddeiliaid ynglŷn â dysgu o ansawdd gwael sy'n seiliedig ar ymarfer a phrofiadau negyddol ar leoliad gwaith. Mae'r newid yn cefnogi ymagwedd at wella rhaglenni sy'n fwy myfyriol ac yn cael ei arwain fwy gan ddata. |
| 3.7 Rhaid bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â'r rhaglen. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau*<br><br>6.3 Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cymryd rhan weithredol ac ystyrlon yn y broses o gynllunio, darparu a gwerthuso rhaglenni, gan gyfrannu at eu hansawdd, eu heffeithiolrwydd a'u perthnasedd i ymarfer iechyd a gofal. | Mae safon ddrafft 6.4 yn gwneud profiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn greiddiol i raglenni. Mae'r newid yn cefnogi atebolrwydd i'r cyhoedd ac yn sicrhau y caiff dysgwyr eu paratoi ar gyfer bodloni safonau proffesiynol mewn cyd-destunau yn y byd go iawn.<br>Mae'n egluro natur ymwneud defnyddwyr gwasanaethau, gan nodi eu rôl mewn cynllunio, darparu a gwerthuso. Cafodd y safon bresennol ei gosod ar lefel uchel er mwyn galluogi darparwyr i ddatblygu'r systemau angenrheidiol ar gyfer bodloni'r safon hon. Â'r safon hon wedi'i sefydlu ers tro bellach, mae'r diwygiadau hyn yn cryfhau'r safon bresennol ac yn gosod disgwyliadau uwch sydd yn adlewyrchu'r hyn sydd ei angen nawr ac yn y dyfodol. Mae hynny'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymateb i adborth rhanddeiliaid fu'n galw am ymgysylltu mwy ystyrlon a disgwyliadau mwy eglur. |
| 3.8 Rhaid bod dysgwyr yn ymwneud â'r rhaglen. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau*<br>6.6 Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol ac ystyrlon yn y broses o gynllunio a gwerthuso rhaglenni, gan gyfrannu at eu hansawdd, eu heffeithiolrwydd a'u gwelliant parhaus. | Mae safon ddrafft 6.6 yn adlewyrchu'r newidiadau i ymwneud defnyddwyr gwasanaethau, ac yn pwysleisio'r rhan ystyrlon sydd gan ddysgwyr yn y gwaith o gynllunio ac adolygu rhaglenni. Mae hyn yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid a dynnodd sylw at werth llais y dysgwr wrth wella ansawdd a thegwch rhaglenni. |
| 3.11 Rhaid bod rhaglen effeithiol ar waith er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol ac academaidd parhaus addysgwyr, sy'n briodol ar gyfer eu rôl yn y rhaglen.<br>5.7 Rhaid i addysgwyr ymarfer ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd sydd yn briodol ar gyfer eu rôl, anghenion dysgwyr a chyflawni deilliannau dysgu'r rhaglen. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Staff rhaglenni*<br>6.1 Mae pob addysgwr yn ymgymryd â dysgu a datblygu rheolaidd ac effeithiol sy'n briodol i'w rôl, anghenion dysgwyr a chyflawni deilliannau dysgu. | Mae safon ddrafft 6.1 yn cryfhau'r disgwyliadau ynglŷn â datblygu'r addysgwr yn safonau 3.11 a 5.7. Mae hyn yn lleihau dyblygu ac yn cefnogi cysondeb ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu.<br>Mae'r safon ddrafft yn ymateb i bryderon ynglŷn ag anghysonderau posib mewn ansawdd hyfforddiant a chefnogaeth, yn enwedig mewn dulliau darparu fel prentisiaethau. Mae'n cefnogi goruchwylio o ansawdd uchel ar draws lleoliadau addysg. Clywsom geisiadau gan rai rhanddeiliaid i gyflwyno safonau gofynnol megis cymwysterau gofynnol a phrofiad gofynnol i addysgwyr. Fodd bynnag, byddai hynny'n newid natur y safonau addysg a hyfforddiant i fod yn rhai sy'n canolbwyntio ar fewnbynnau. Mae'r safon ddrafft yn ymateb i'r ceisiadau hyn ond yn cadw'r safonau yn rhai sy'n canolbwyntio ar allbynnau. |
| | *Sefydliad – Diogelwch a llesiant* | Mae safon ddrafft 3.2 yn cadw disgwyliadau'r safon wreiddiol ac yn diweddaru'r geiriad er |

| | | |
|---|---|---|
| 3.13 Rhaid bod trefniadau effeithiol a hygyrch ar waith i gefnogi anghenion llesiant a dysgu'r dysgwyr ym mhob lleoliad. | 3.2 Mae anghenion llesiant a dysgu pob dysgwr yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar draws pob lleoliad. | mwyn bod yn gyson â gweddill y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig.<br>Mae gwella eglurder y safon hon yn helpu i ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynglŷn â chefnogaeth anghyson, yn enwedig mewn lleoliadau allanol neu drydydd-parti. Mae'n gydnaws â'r cynigion i gryfhau addasiadau rhesymol a systemau cefnogi cynhwysol. |
| 3.14 Rhaid i'r rhaglen weithredu a monitro polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â dysgwyr. | *Gweler 2.7* | *Gweler 2.7* |
| 3.15 Rhaid bod proses drylwyr ac effeithiol ar waith ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion dysgwyr.<br>6.6 Rhaid bod proses effeithiol ar waith i ddysgwyr wneud apeliadau academaidd. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau*<br>6.7 Mae darparwyr addysg yn derbyn ac yn ymateb yn effeithiol i bob cwyn, adborth, a chais gan ddysgwyr am apêl academaidd. | Mae safon ddrafft 6.6 yn crynhoi safonau 3.15 a 6.6 presennol ynglŷn â chwynion ac apeliadau academaidd mewn un safon.<br>Mae'n ehangu'r cwmpas i gynnwys ffurfiau eraill ar adborth, ac adborth a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau.<br>Mae'r newidiadau hefyd yn golygu bod y safon yn gryno ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau drwy bwysleisio ymatebion effeithiol a llais y dysgwr, yn hytrach na phrosesau.<br>Mae'r newidiadau hyn yn gydnaws ag adborth rhanddeiliaid ynglŷn â hyd y safonau ac effeithiolrwydd darparwyr addysg o ran ymateb i adborth a chwynion. |
| 3.16 Rhaid bod prosesau trylwyr ac effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau addasrwydd parhaus ymddygiad, cymeriad ac iechyd dysgwyr. | *Sefydliad – Diogelwch a llesiant*<br>3.4 Ystyrir ymddygiad, cymeriad ac iechyd parhaus dysgwyr, er mwyn cynnal diogelwch defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. | Mae'r safon hon wedi'i diwygio yn nrafft 3.4 er mwyn pwysleisio'r berthynas rhwng diogelwch defnyddwyr gwasanaethau ac asesu ymddygiad, cymeriad ac iechyd dysgwyr.<br>Mae'r newid yn ei gwneud yn fwy eglur bod disgwyl i ddarparwyr addysg asesu ymddygiad, cymeriad ac iechyd dysgwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | mewn perthynas â sicrhau diogelwch defnyddwyr gwasanaethau.<br>Mae'r newid hwn yn gyson â'n hasesiad o effeithiau ar gydraddoldeb. Mae'n gydnaws hefyd â'r diweddariadau yn 2022 i'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, a roddodd bwyslais ar y berthynas rhwng iechyd a chymeriad y rhai sydd wedi cofrestru ac ymarfer diogel. |
| 3.17 Rhaid bod proses effeithiol ar waith i gefnogi a galluogi dysgwyr i godi pryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant defnyddwyr gwasanaethau. | *Sefydliad – Diogelwch a llesiant*<br>3.5 Cefnogir dysgwyr i nodi a chodi pryderon ynghylch diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaethau. | Mae safon ddrafft 3.5 yn symleiddio'r safon 3.17 bresennol ac yn canolbwyntio sylw ar ganlyniad disgwyliedig gweithredu'r safon. Mae'r newid hefyd yn ymateb i adborth rhanddeiliaid a bwysleisiodd bwysigrwydd diogelwch seicolegol a dealltwriaeth o brosesau mewnol i ymdrin â chwynion a diogelwch. |
| 3.18 Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod dysgwyr, addysgwyr ac eraill yn gwybod mai dim ond trwy gwblhau rhaglen gymeradwy yn llwyddiannus y gellir sicrhau cymhwysedd i gael eu derbyn i'r Gofrestr. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.2 Mae'r darparwr addysg yn cyfleu beth yw rôl yr HCPC yn effeithiol i ddysgwyr ac yn cyfleu i ddysgwyr, addysgwyr ac eraill mai dim ond trwy gwblhau rhaglen gymeradwy yn llwyddiannus y gellir sicrhau cymhwysedd i gael eu derbyn i'r Gofrestr. | Mae safon ddrafft 5.2 yn gwella eglurder safon 3.18. Mae'n sicrhau bod dysgwyr, addysgwyr a defnyddwyr eraill y safonau addysg a hyfforddiant yn deall mai dim ond trwy gwblhau rhaglen a gymeradwywyd gan yr HCPC yn llwyddiannus y gellir sicrhau cymhwysedd i gael ymuno â chofrestr yr HCPC. Mae hyn yn cefnogi tryloywder ac mae'n gyson â'n cylch gorchwyl ar gyfer diogelu'r cyhoedd.<br>Rydym hefyd wedi ychwanegu disgwyliad newydd i ddarparwyr addysg gyfleu rôl yr HCPC i ddysgwyr. |
| **4. Cynllunio a darparu rhaglenni** | | |
| | *Rhaglen – Darparu rhaglen: Dulliau dysgu* | Mae safon ddrafft 9.4 yn cryfhau safon 4.9 ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd dysgu rhwng proffesiynau yn hytrach na gallu'r dysgwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.9 Rhaid i'r rhaglen sicrhau bod dysgwyr yn gallu dysgu gyda, a gan, weithwyr proffesiynol a dysgwyr mewn proffesiynau perthnasol eraill. | 9.4 Mae dysgwyr yn dysgu gyda, a gan, weithwyr proffesiynol a dysgwyr mewn proffesiynau perthnasol eraill, yn unol ag egwyddorion gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol. | Mae'r newid hwn yn peri i'r safon fod yn gyson â'r dehongliad a amlinellwyd yn y canllawiau ac mae'n ychwanegu eglurder. Drwy ganolbwyntio sylw ar ddarparu dysgu rhwng proffesiynau, mae'n adlewyrchu adborth rhanddeiliaid ynglŷn â phwysigrwydd paratoi dysgwyr ar gyfer amgylcheddau gofal sy'n seiliedig ar dimau. Mae'r newid hefyd yn gyson â'r safonau hyfedredd mewn perthynas â chyfathrebu a gwaith tîm.<br>I gyd-fynd â'r safon, ceir canllawiau sy'n amlinellu ein bod yn disgwyl y bydd rhaglenni hefyd yn sicrhau bod dysgwyr yn ymwneud digon â dysgu rhwng proffesiynau. |
| 4.10 Rhaid i'r rhaglen gynnwys prosesau effeithiol ar gyfer derbyn cydsyniad priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a dysgwyr. | *Gweler* safonau newydd *ar ddiwedd y ddogfen* | *Gweler* safonau newydd *ar ddiwedd y ddogfen* |
| 4.11 Rhaid i'r darparwr addysg nodi a chyfleu i'r dysgwyr ar ba rannau o'r rhaglen y mae presenoldeb yn orfodol a rhaid bod ganddynt brosesau monitro cysylltiedig ar waith. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.3 Mae disgwyliadau clir ar gyfer presenoldeb, gan gynnwys nodi a chyfleu'r rhannau o raglenni sy'n gofyn am bresenoldeb gorfodol, a chaiff presenoldeb ei fonitro i sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn mewn gweithgareddau dysgu hanfodol. | Mae safon ddrafft 5.3 yn gwella eglurder ynglŷn â phresenoldeb gorfodol a monitro. Mae'n sicrhau y bydd dysgwyr yn ymroi'n llawn i weithgareddau dysgu hanfodol ac mae'n cefnogi tryloywder rhaglenni. Mae hyn yn ymateb i adborth ynglŷn â pholisïau presenoldeb anghyson a'r angen am ddisgwyliadau mwy eglur. |
| **5. Dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer** | | |
| 5.3 Rhaid i'r darparwr addysg gynnal system drylwyr ac effeithiol ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | *Gweler 3.4* | *Gweler 3.4* |

| | | |
|---|---|---|
| 5.4 Rhaid i ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ddigwydd mewn amgylchedd sydd yn ddiogel ac yn gefnogol i ddysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau. | *Sefydliad – Diogelwch a llesiant*<br>3.1 Mae pob amgylchedd dysgu yn ddiogel ac yn gefnogol i ddysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni. | Mae safon ddrafft 3.1 yn ehangu'r cwmpas i gynnwys pob amgylchedd dysgu a rhanddeiliad. Mae hyn yn gyson ag adborth ynglŷn â diogelu a diogelwch seicolegol. |
| 5.7 Rhaid i addysgwyr ymarfer ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd sydd yn briodol ar gyfer eu rôl, anghenion dysgwyr a chyflawni deilliannau dysgu'r rhaglen. | *Gweler 3.11* | *Gweler 3.11* |
| 5.8 Rhaid bod dysgwyr ac addysgwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn da bryd er mwyn iddynt fod wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.1 Mae gan ddysgwyr ac addysgwyr ymarfer y wybodaeth ymarferol ac academaidd sydd ei hangen arnynt i fod wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | Mae safon ddrafft 5.1 yn cadw disgwyliadau'r safon wreiddiol ac yn diweddaru'r geiriad er mwyn bod yn gyson â gweddill y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig. Mae'r geiriad diwygiedig yn pwysleisio pwysigrwydd galluogi pobl i fod yn barod, sydd yn helpu i ymateb i bryderon ynglŷn â bylchau mewn cyfathrebu a'r angen am well paratoi ar gyfer lleoliadau gwaith.<br>I gyd-fynd â'r safon, ceir canllawiau sydd yn nodi bod paratoi yn cynnwys paratoi ymarferol ac academaidd. |
| **6. Asesu** | | |
| 6.3 Rhaid i asesiadau ddarparu mesur gwrthrychol, teg a dibynadwy o gynnydd a chyflawniad dysgwyr. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Deilliannau dysgu ac asesiadau*<br>8.6 Mae asesiadau'n darparu mesur gwrthrychol, teg a dibynadwy o gynnydd a chyflawniad dysgwyr. | Mae safon ddrafft 8.6 yn cadw'r bwriad gwreiddiol, sef sicrhau bod asesiadau'n wrthrychol, teg a dibynadwy. Mae'r safon hon yn cefnogi cysondeb a thryloywder wrth werthuso cynnydd a chyflawniad dysgwyr ac mae'n gyson â galwadau rhanddeiliaid am ddulliau asesu sy'n fwy cynhwysol ac yn fwy seiliedig ar gymhwysedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.4 Rhaid i bolisïau asesu nodi'n glir beth yw'r anghenion ar gyfer dilyniant a chyflawniad o fewn y rhaglen. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.4 Mae gofynion asesu ar gyfer dilyniant a chyflawniad ar draws rhaglenni wedi'u gosod, eu cyfleu a'u monitro'n eglur. | Mae safon ddrafft 5.4 yn egluro anghenion asesu a meini prawf ar gyfer dilyniant. Mae'r newid yn sicrhau mai ar ddeilliannau gweithredu'r safon y mae'r prif sylw yn hytrach na nodi beth dylai polisïau asesu ei ddweud.<br>Mae hyn yn pwysleisio ei bod yn bwysig i ddysgwyr ddeall disgwyliadau ac mae'n cefnogi tryloywder rhaglenni. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu adborth a gafwyd ynglŷn â'r angen i gyfleu safonau academaidd yn fwy eglur i ddysgwyr. |
| 6.6 Rhaid bod proses effeithiol ar waith i ddysgwyr wneud apeliadau academaidd. | *Gweler 3.15* | *Gweler 3.15* |
| 6.7 Rhaid i'r darparwr addysg sicrhau bod gan o leiaf un arholwr allanol ar gyfer y rhaglen gymwysterau a phrofiad priodol ac, oni bai bod trefniadau eraill yn briodol, eu bod ar ran berthnasol y Gofrestr. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Staff rhaglenni*<br>6.2 Mae craffu allanol effeithiol ar raglenni, gan gynnwys o leiaf un person penodedig sydd â'r profiad proffesiynol a'r cymwysterau priodol sy'n berthnasol i'r rhaglen. | Mae safon ddrafft 6.2 yn cryfhau'r disgwyliadau ynglŷn â chraffu allanol effeithiol ond mae'n dileu'r cymal ynglŷn â'r Gofrestr ac yn camu oddi wrth iaith sy'n perthyn i sefydliadau Addysg Uwch. Mae hyn yn cefnogi hyblygrwydd ac yn parhau i gynnal sicrwydd ansawdd. Yn yr un modd â safon ddrafft 2.4, mae'n ymateb i bryderon ynglŷn â rhwystrau diangen ac mae'n hyrwyddo recriwtio cynhwysol ar gyfer arholwyr allanol. |
| **Safonau lefel rhaglen** | | |
| **2. Derbyn i raglen** | | |
| | *Sefydliad - Derbyniadau*<br>4.2 Mae'r meini prawf dethol a mynediad yn briodol i lefel a chynnwys y rhaglen ac yn | Mae safon ddrafft 4.2 yn gwella eglurder ynglŷn â meini prawf dethol a mynediad drwy ganolbwyntio ar ba mor briodol ydynt ar gyfer lefel a chynnwys y rhaglen. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 Rhaid i'r meini prawf dethol a mynediad gynnwys safonau mynediad academaidd a phroffesiynol priodol. | cael eu cymhwyso'n deg mewn penderfyniadau derbyn. | Mae hyn yn disodli iaith fwy technegol 'safonau mynediad academaidd a phroffesiynol' ac yn cefnogi penderfyniadau derbyn tecach a mwy tryloyw. Mae'n gyson hefyd â'r nod ehangach o wneud y safonau addysg a hyfforddiant yn fwy hygyrch a'u bod yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach nag ar osod prosesau. |
| **3. Llywodraethiant, rheolaeth ac arweinyddiaeth rhaglenni** | | |
| 3.5 Rhaid bod cydweithredu rheolaidd ac effeithiol rhwng y darparwr addysg a darparwyr addysg ymarfer. | *Rhaglen – Darparu'r rhaglen: Partneriaethau*<br>9.5 Ceir partneriaethau ffurfiol rhwng y darparwr addysg a'i bartneriaid cyflenwi, sy'n cynnwys cydweithio rheolaidd ac effeithiol a gwerthuso ar y cyd, ac sy'n sicrhau cyfrifoldeb y darparwr am y rhaglen. | Mae safon ddrafft 9.5 yn cryfhau disgwyliadau ynglŷn â phartneriaethau ffurfiol rhwng darparwyr addysg a phartneriaid cyflenwi.<br>Mae'n cyflwyno gofynion ar gyfer gwerthuso ar y cyd, gan ymateb i bryderon ynglŷn â chydweithredu anghyson mewn modelau sydd dan arweiniad cyflogwyr a modelau aml-safle. Mae'r newid hwn yn cefnogi atebolrwydd a sicrhau ansawdd mewn dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer.<br>Mae'r newid hefyd yn tynnu sylw at yr angen i bartneriaethau sicrhau mai'r darparwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen. |
| 3.6 Rhaid bod proses effeithiol ar waith i sicrhau bod dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ar gael a bod digon o le i'r holl ddysgwyr. | *Rhaglen – Sefydlu'r rhaglen*<br>7.4 Mae digon o ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ar gael a digon o le i bob dysgwr gael cymryd rhan drwy gydol y rhaglen. | Mae safon ddrafft 7.4 yn cadw'r disgwyliad y bydd darparwyr addysg yn sicrhau bod digon o gyfleoedd a chapasiti ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ar gael i'r holl ddysgwyr.<br>Mae'r newid i'r safon hon yn pwysleisio natur seiliedig ar ddeilliannau'r safonau yn hytrach na rhoi sylw i brosesau penodol.<br>Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i gadw'r ymagwedd gyfredol, sef bod darparwyr yn ystyried argaeledd lleoliadau gwaith er mwyn galluogi i fynediad anghyfartal gael |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyriaeth, yn enwedig ar lwybrau nad ydynt yn rhai traddodiadol. |
| 3.9 Rhaid bod nifer digonol o aelodau staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol yn eu lle i ddarparu rhaglen effeithiol.<br><br>5.5 Rhaid bod nifer digonol o aelodau staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol yn ymwneud â dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | *Rhaglen – Darparu'r rhaglen: Staffio*<br><br>9.1 Mae digon o staff cymwys a phrofiadol ym mhob lleoliad i gyflwyno a chefnogi'r rhaglen mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni'r safonau hyfedredd a pharatoi ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol. | Mae safon ddrafft 9.1 yn cyfuno disgwyliadau staffio ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau ac ymarfer mewn un safon fwy cryno er mwyn lleihau dyblygu a chefnogi cysondeb mewn ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu. Mae'r safon ddiwygiedig yn sicrhau bod digon o staff cymwys a phrofiadol ym mhob lleoliad i gyflwyno'r rhaglen a chefnogi dysgwyr yn effeithiol. Mae hyn yn cefnogi ymarfer diogel ac effeithiol ac mae'n gydnaws ag adborth ynglŷn â'r angen am ddisgwyliadau cyson ar gyfer staffio ar draws pob model darparu a phwysigrwydd ansawdd goruchwylio. |
| 3.10 Rhaid i feysydd pwnc gael eu darparu gan addysgwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol.<br><br>5.6 Rhaid bod gan addysgwyr ymarfer wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol i gefnogi dysgu diogel ac effeithiol ac, oni bai bod trefniadau eraill yn briodol, rhaid eu bod ar ran berthnasol y Gofrestr. | *Rhaglen – Darparu'r rhaglen: Staffio*<br><br>9.2 Cefnogir dysgu gan addysgwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol, y mae eu cymhwysedd a'u hyfforddiant yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol. | Mae safon ddrafft 9.2 yn cyfuno ac yn egluro disgwyliadau ar gyfer arbenigedd, cymwysterau a hyfforddiant addysgwyr, gan gynnwys mewn dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer.<br>Mae hyn gwneud y safon yn fwy cryno, yn lleihau dyblygu ac yn cefnogi cysondeb ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu. Mae'r newid hwn yn ymateb i bryderon ynglŷn ag amrywiaethau o safbwynt paratoi addysgwyr ac ansawdd goruchwylio.<br>Yn yr un modd â safon ddrafft 2.4, mae'r safon gyfredol yn caniatáu eithriadau i'r angen i'r unigolyn cyfrifol fod yn rhan o'r Gofrestr. Fodd bynnag, mae wedi ei geirio mewn modd cymhleth a negyddol.<br>Mae dileu'r rhan hon o'r geiriad yn cadw'r modd y caiff y safon ei gweithredu ar hyn o |

| | | |
|---|---|---|
| | | bryd ac yn symleiddio'r geiriad, gan symud i ffwrdd o fframio negyddol.<br>Mae'r safon ddrafft yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan addysgwyr ymarfer gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer y rôl. Byddai'r canllawiau diwygiedig yn darparu manylion pellach ynglŷn â'n disgwyliadau. |
| 3.12 Rhaid i'r adnoddau i gefnogi dysgu ym mhob lleoliad fod yn effeithiol ac yn briodol i gyflwyno'r rhaglen a rhaid eu bod yn hygyrch i bob dysgwr ac addysgwr. | *Rhaglen – Sefydlu'r rhaglen*<br>7.3 Mae'r adnoddau i gefnogi dysgu ym mhob lleoliad yn effeithiol ac yn briodol i gyflwyno'r rhaglen ac maent yn hygyrch i bob dysgwr ac addysgwr. | Mae safon ddrafft 7.3 yn cadw disgwyliadau'r safon wreiddiol ac yn diweddaru'r geiriad er mwyn bod yn gyson â gweddill y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig.<br>Er mwyn sicrhau eglurder a hwyluso gweithredu'r safon hon, rydym hefyd wedi cryfhau'r canllawiau i ddarparu enghreifftiau o'r adnoddau allai fod o gymorth i gefnogi dysgu a hygyrchedd. |
| **4. Cynllunio a darparu rhaglenni** | | |
| 4.1 Rhaid i'r deilliannau dysgu sicrhau bod dysgwyr yn bodloni'r safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr.<br>4.2 Rhaid i'r deilliannau dysgu sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn gallu cyflawni disgwyliadau ymddygiad proffesiynol, gan gynnwys y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Deilliannau dysgu ac asesu*<br>8.1 Mae'r deilliannau dysgu yn integreiddio'n effeithiol y gofynion ar gyfer ymarfer proffesiynol fel y'u diffinnir yn ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr. | Mae safon ddrafft 8.1 yn cyfuno'r disgwyliadau ynglŷn â deilliannau dysgu mewn un safon. Mae hyn yn gwneud y safonau'n fwy cryno ac yn lleihau dyblygu. Mae'r safon hon yn cefnogi parodrwydd ar gyfer cofrestru ac ymddygiad proffesiynol ac mae'n adlewyrchu tuedd y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig i ganolbwyntio ar ddeilliannau. |
| 4.3 Rhaid i'r rhaglen adlewyrchu'r athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Cynnwys y cwricwlwm*<br>8.7 Mae'r rhaglen yn adlewyrchu athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a sylfaen | Mae safon ddrafft 8.7 yn diweddaru'r disgwyliadau ynglŷn â chynnwys cwricwlwm er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu athroniaeth, gwerthoedd craidd, sgiliau a sylfaen wybodaeth y proffesiwn, yn hytrach |

| | | |
|---|---|---|
| sylfaen wybodaeth fel y'u disgrifir mewn unrhyw ganllawiau cwricwlwm perthnasol. | wybodaeth aelodau presennol y proffesiwn a phwyntiau cyfeirio allanol perthnasol. | na'r rhai a ddisgrifir mewn canllawiau cwricwlwm yn unig.<br>Mae hyn yn cydnabod y gwahanol gyfeirbwyntiau y gallai cynnwys rhaglen eu hadlewyrchu, yn ogystal â'r gwahaniaethau ar draws cyrff proffesiynol a ph'un ai y defnyddir y term 'canllawiau cwricwlwm' ar gyfer cyfeirbwyntiau ai peidio.<br>Mae'n canolbwyntio'r safon hefyd ar y canlyniad disgwyliedig, sef bod angen dangos sut y caiff canllawiau allanol eu hadlewyrchu yn y rhaglen. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy amlwg bod y safon yn gyson â'r canllawiau ac mae'n helpu i wneud rhaglenni'n fwy perthnasol a mwy ymatebol i arfer cyfredol. |
| 4.4 Rhaid i'r cwricwlwm barhau'n berthnasol i ymarfer cyfredol. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Cynnwys y cwricwlwm*<br>8.8 Caiff y cwricwlwm ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer proffesiynol ac yn parhau i baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol. | Mae safon ddrafft 8.8 yn ei gwneud yn fwy eglur ein bod yn disgwyl bod gan ddarparwyr weithdrefnau priodol ar gyfer adolygu a diweddaru'r cwricwlwm yn rheolaidd, y tu hwnt i'r adeg y caiff y rhaglen ei chymeradwyo. Mae hyn yn sicrhau bod rhaglenni'n parhau i ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer proffesiynol ac yn parhau i baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol. Mae'n adlewyrchu adborth rhanddeiliaid ynglŷn â'r angen i fod yn barod ar gyfer y dyfodol ac i allu addasu. |
| 4.5 Rhaid i integreiddio damcaniaethau ac ymarfer fod yn ganolog yn y rhaglen.<br>5.1 Rhaid i ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer fod yn rhan integredig o'r rhaglen. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Cynnwys y cwricwlwm*<br>8.9 Mae dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer ac integreiddio damcaniaethau ac ymarfer cyfredol yn ganolog i'r rhaglen. | Mae safon ddrafft 8.9 yn cyfuno dibenion safonau cyfredol er mwyn gwneud y safonau'n fwy cryno. Mae'r safon hon yn cefnogi cynllunio rhaglenni mewn modd cyfannol ac mae'n adlewyrchu pwysigrwydd dysgu trwy brofiad o safbwynt paratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer yn y byd go iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.6 Rhaid i'r dulliau dysgu ac addysgu a ddefnyddir fod yn briodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn effeithiol. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Deilliannau dysgu ac asesu*<br>8.3 Mae dulliau dysgu ac addysgu yn briodol ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn effeithiol. | Mae safon ddrafft 8.3 yn cadw disgwyliadau'r safon wreiddiol ac yn diweddaru'r geiriad er mwyn bod yn gyson â gweddill y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig. Mae'n sicrhau bod dulliau darparu yn gydnaws â'r deilliannau dysgu ac mae'n cefnogi addysgeg effeithiol ar draws modelau darparu amrywiol. |
| 4.7 Rhaid i'r modd y darperir y rhaglen gefnogi a datblygu dysgu annibynnol a meddwl ystyriol.<br>4.8 Rhaid i'r modd y darperir y rhaglen gefnogi a datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Cynnwys y cwricwlwm*<br>8.10 Mae dyluniad y rhaglen wedi'i lywio gan dystiolaeth ac ymarfer myfyriol ac mae'n cefnogi integreiddio dulliau a thechnolegau priodol. | Roedd y safonau gwreiddiol (4.7 a 4.8) yn cyfeirio at gael dysgwyr annibynnol, myfyriol ac ymwybodol o dystiolaeth. Gellir dileu'r gofynion hyn o'r safonau addysg a hyfforddiant gan fod disgwyliadau ynglŷn ag annibyniaeth, meddwl ystyriol ac ymarfer ar sail tystiolaeth wedi'u cynnwys nawr yn y safonau hyfedredd diweddaraf. Mae egwyddorion y safonau gwreiddiol wedi'u cyfuno, ac yn eu lle ceir safon ddrafft 8.10 sy'n gosod disgwyliadau y bydd darparwyr yn ymgorffori'r un egwyddorion wrth ddylunio rhaglenni. Mae hyn yn newid arwyddocaol i bwyslais y safon, ond mae'n parhau i fod yn seiliedig ar yr un egwyddorion. Mae'n gyson ag adborth rhanddeiliaid ynglŷn â dylunio rhaglenni mewn modd pwrpasol. |
| **5. Dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer** | | |
| 5.1 Rhaid i ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer fod yn rhan integredig o'r rhaglen. | *Gweler 4.5* | *Gweler 4.5* |
| | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Deilliannau dysgu ac asesu* | Mae safon ddrafft 8.4 yn gwneud y disgwyliadau ynglŷn â chanlyniadau dysgwyr o ddysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn fwy |

| | | |
|---|---|---|
| 5.2 Rhaid i strwythur, hyd ac ystod dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer gefnogi cyflawni'r deilliannau dysgu a'r safonau hyfedredd. | 8.4 Mae strwythur, hyd ac ystod dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni'r deilliannau dysgu ac i fodloni ein safonau ar gyfer cael eu derbyn i'r Gofrestr. | eglur. Mae'r newid hwn yn cadarnhau bwriad y safon, ac yn gwneud cysylltiad mwy amlwg rhwng y safon a'r canlyniad disgwyliedig. |
| 5.5 Rhaid bod nifer digonol o aelodau staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol yn ymwneud â dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer. | *Gweler 3.9* | *Gweler 3.9* |
| 5.6 Rhaid bod gan addysgwyr ymarfer wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol i gefnogi dysgu diogel ac effeithiol ac, oni bai bod trefniadau eraill yn briodol, rhaid eu bod ar ran berthnasol y Gofrestr. | *Gweler 3.10* | *Gweler 3.10* |
| **6. Asesu** | | |
| 6.1 Rhaid i strategaeth a dyluniad yr asesu sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn bodloni'r safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr.<br>6.2 Rhaid i'r asesu drwy gydol y rhaglen sicrhau bod dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu cyflawni'r disgwyliadau ymddygiad proffesiynol, gan gynnwys y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: deilliannau dysgu ac asesu*<br>8.2 Mae asesiadau'n sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn deall ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ac yn gallu bodloni ein safonau hyfedredd ar gyfer rhan berthnasol y Gofrestr. | Mae safon ddrafft 8.2 yn cyfuno disgwyliadau ynglŷn ag asesiadau mewn un safon fwy cryno sy'n sicrhau bod dysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglen yn deall y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ac yn gallu bodloni'r safonau hyfedredd. Mae'n cefnogi parodrwydd ar gyfer cofrestru ac yn adlewyrchu pwysigrwydd cysoni asesu â safonau proffesiynol. |
| 6.5 Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir fod yn briodol i'r deilliannau dysgu, ac yn effeithiol ar gyfer eu mesur. | *Rhaglen – Cynllunio a chwricwlwm rhaglen: Deilliannau dysgu ac asesu*<br>8.5 Mae dulliau asesu yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer mesur y deilliannau dysgu. | Mae safon ddrafft 8.5 yn cadw disgwyliadau'r safon wreiddiol ac yn diweddaru'r geiriad er mwyn bod yn gyson â gweddill y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig. Mae'n cefnogi gwerthuso deilliannau dysgu mewn modd teg a chynhwysol ac mae'n adlewyrchu |

| | | |
|---|---|---|
| | | diddordeb rhanddeiliaid mewn asesu dilys ac asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd. |
| **Safonau newydd** | | |
| Dim safon bresennol ar gyfer cymharu. | *Sefydliad – Diogelwch a llesiant*<br>3.3 Cefnogir lles staff ac eraill sy'n ymwneud â rhaglenni, er mwyn galluogi cyfraniad effeithiol at y rhaglen ac ansawdd y dysgu. | Mae'r safon newydd hwn yn cyflwyno disgwyliadau ar gyfer rhoi cefnogaeth briodol i staff. Mae'n sicrhau bod gan aelodau staff ac eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen fynediad at gefnogaeth briodol gan eu sefydliadau i'w galluogi i ddarparu addysg, hyfforddiant a chefnogaeth o safon i ddysgwyr yn effeithiol. Mae hyn yn ymateb i bryderon ynglŷn â'r gofynion cynyddol sydd ar addysgwyr ac effaith hynny ar amgylcheddau dysgu. |
| Dim safon bresennol ar gyfer cymharu. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.5 Mae darparwyr addysg yn pennu, yn gosod ac yn cyfleu'n eglur y disgwyliadau ar gyfer defnydd priodol o dechnoleg mewn dysgu ac addysgu, gan sicrhau eu bod yn cael eu deall gan ddysgwyr ac addysgwyr. | Mae'r safon hon yn cyflwyno disgwyliadau ynglŷn â'r defnydd priodol o dechnoleg mewn dysgu ac addysgu. Mae'n sicrhau bod dysgwyr ac addysgwyr yn deall sut i ddefnyddio offer digidol mewn modd effeithiol a moesegol, gan gefnogi uniondeb academaidd a pharodrwydd digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| Dim safon bresennol ar gyfer cymharu. | *Sefydliad – Cyfathrebu a gwybodaeth*<br>5.6 Mae dysgwyr yn derbyn adborth amserol ac ystyrlon i'w grymuso a'u galluogi i chwarae rhan weithredol yn eu datblygiad eu hunain. | Mae'r safon hon yn cyflwyno disgwyliadau ar gyfer adborth amserol ac ystyrlon i ddysgwyr. Mae'n sicrhau bod dysgwyr yn derbyn adborth o ansawdd da, er mwyn cefnogi datblygiad dysgwyr a hyrwyddo ymgysylltiad, gan ymateb i adborth rhanddeiliaid ynglŷn â gwerth cyd-gynhyrchu a chylchoedd adborth. Mae'n helpu hefyd i fynd i'r afael â chyflawniadau gwahaniaethol (y mae ymchwil wedi'u cysylltu ag anghydraddoldebau o ran darparu ac ansawdd adborth) drwy sicrhau bod adborth yn deg a bod modd gweithredu ar ei sail. Mae disgwyliadau tebyg wedi'u cynnwys yn y canllawiau ar gyfer safon ddrafft 3.3 (uchod), mewn perthynas ag adborth effeithiol i staff ac eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen. |
| Dim safon bresennol ar gyfer cymharu. | *Rhaglen – Darparu'r rhaglen: Staffio*<br>9.3 Mae addysgwyr yn gyfarwydd â defnyddio technolegau cyfoes ac offer digidol sy'n berthnasol i'w proffesiwn ac a ddefnyddir mewn addysgu, goruchwylio ac asesu. | Mae'r safon hon yn cyflwyno disgwyliadau ar gyfer cymhwysedd addysgwyr gyda thechnolegau cyfoes ac offer digidol. Mae'n sicrhau bod addysgwyr yn barod i gefnogi dysgwyr o ran defnyddio technolegau newydd mewn addysgu, goruchwylio ac asesu. |
| 4.10 Rhaid i'r rhaglen gynnwys prosesau effeithiol ar gyfer derbyn cydsyniad priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a dysgwyr. | *Sefydliad – Pobl a phartneriaethau: Dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau*<br>6.4 Ceir cydsyniad priodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, mewn ffyrdd sy'n cynnal eu hawliau ac yn adlewyrchu ymarfer moesegol.<br>6.5 Ceir cydsyniad priodol gan ddysgwyr, mewn ffyrdd sy'n cynnal eu hawliau ac yn cynnal eu diogelwch ym mhob lleoliad. | Mae safonau drafft 6.4 a 6.5 yn pwysleisio tuedd y safonau i ganolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na chanolbwyntio ar fodolaeth prosesau. Maent hefyd yn gwahanu cydsyniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr oddi wrth gydsyniad dysgwyr.<br>Mae'r cyfeiriad at hawliau ac ymarfer moesegol yn y safon yn darparu diffiniad clir o gydsyniad ac yn adlewyrchu egwyddorion ymarfer moesegol. Mae hyn yn cefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | | hawliau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a dysgwyr, ac mae'n gyson â'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a'r safonau hyfedredd mewn perthynas ag urddas ac annibyniaeth. |